

Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd
Dydd Mercher 4 Medi 2019.
Canolfan Gymunedol Tŷ Llywelyn 10am

Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire (Cadeirydd)
Paul Frost PF
Laura Crawford LC
Kevin Slattery KS
Hilary Davies HD
Iona Pierce
Y Cyng. Martyn Holland
John Buckley

Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Warden Mynediad)
Simon Billington
Owen Conry

Cynrychiolydd Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad a Hamdden ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol)
Howard Sutcliffe (AHNE a Rheolwr Gwasanaeth Ceidwad)
Huw Rees (Rheolwr Cefn Gwlad a Threftadaeth)
Adrian Walls (Rheolwr Rhwydwaith Hawliau Tramwy)

Peter Rutherford (Parc Cenedlaethol Eryri)
Tom Culhane
Angela Charlton (Y Cerddwyr)
Gruff Owen (Swyddog Llwybr yr Arfordir Cymru)

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: -

Tom Woodall, Gwen Butler, Heather Fitzgerald, Chris Marshall, Duncan Barratt
Victoria Currie, David Shiel, Paul Mitchell

Cofnodion a Nodiadau'r Cyfarfod Diwethaf

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Rhestrod HA yr ymddiheuriadau a gafwyd. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cynigiwyd eu bod yn gywir gan Paul Frost a Kevin Slattery.

Tudalen 2 Gweithdai Datganiad Ardal

Gofynnodd TF a oedd rhywun wedi mynychu'r gweithdai ac a allent roi diweddariad.

Rhoddodd HS ddiweddariad i'r Fforwm Mynediad Lleol ac awgrymodd y gallai datganiadau ardal gynnwys Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin Cymru. Cafodd y gweithdai eu trefnu gan Gyfoeth Naturiol Cymru wrth iddynt geisio cael ystod eang o bobl i gyfrannu. Maent yn creu cronfa ddata o'r hyn sydd ym mhob ardal a'r hyn mae pobl yn feddwl sy'n bwysig ym mhob ardal.

Bydd gweithdai datganiad Morol Cymru gyfan yn cael eu cynnal yn ddiweddarach y mis hwn. Mae'n siŵr y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cyfarfodydd eraill i fynd drwy'r manylion unwaith y bydd popeth wedi'i gasglu.

Ychwanegodd HS y bydd gan swyddog cefn gwlad y Gogledd Ddwyrain Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb tuag at y datganiad ardal yn eu swydd-ddisgrifiad.

Angela Charlton

Siaradodd Angela gyda'r Fforwm Mynediad Lleol am sefyllfa bresennol Y Cerddwyr. Roeddent yn paratoi eu maniffesto ar gyfer symud ymlaen ar hyn o bryd ac yn dechrau trafodaethau gyda gweinidogion. Bydd y maniffesto yn cael ei lansio y flwyddyn nesaf yn y Senedd. Barn Y Cerddwyr yw gweithio tuag at rannu mynediad ble bo'n briodol, fesul achos.

Roedd gan Y Cerddwyr dîm codi arian mawr ac roeddent wedi derbyn miliynau gan loteri cod post y bobl, oedd wedi gwella agweddau digidol o'u gwaith a helpu i ddenu cynulleidfa newydd. Roeddent yn troi cornel ar aelodaeth ac yn dechrau gweld cynnydd. Roedd Y Cerddwyr yn dechrau edrych yn fodern. Roedd RA ac RC yn llawer gwell o ran casglu data ac roeddent wedi creu rhwydwaith cipolwg.

Dewch i Gerdded Cymru – Nid oedd cyllid yn parhau gan Lywodraeth Cymru ac roedd rôl RA yn gynyddol tuag at hyfforddiant. Bellach roedd gan RA raglen hyfforddiant dreigl o gyrsiau fel Sut i Nodi Llwybrau, arwain teithiau cerdded i deuluoedd.

Fel elusen roeddent angen ystyried cynaliadwyedd a sut i greu incwm.

Strwythur Y Cerddwyr – 3 aelod o staff parhaol craidd a 9 aelod o staff tan Hydref 2020. Yn dda am ddod o hyd i arian. Y diweddaraf yw bagiau Tesco, sydd wedi darparu cyllid i ailddylunio pecyn gweithgaredd teulu.

Bydd digwyddiad Taith Gerdded Fawr y Waun yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf, sy'n ddigwyddiad heriol.

Cynllun busnes y flwyddyn nesaf fydd gweithio ar y Prosiect Llwybrau i Bobl, na dderbyniodd £1miliwn yr ymgeiswyd amdano drwy ENRaW, derbyniodd y Cerddwyr ymateb da gan Lywodraeth Cymru. Roedd pob Awdurdod Lleol heblaw dau yn cefnogi'r cynnig, roedd y Cerddwyr nawr yn gweithio gyda Loteri Cod Post y Bobl i gael arian.

Mynediad i Ben Morfa

Cyflwyniad gan Sian Williams

Bu llawer o drafodaethau am fynediad i ben morfa, Llandudno o'r maes parcio ger y caffi tuag at Deganwy a'r morglawdd. Mae'n cael llawer o ddefnydd ac yn ardal boblogaidd, ond mae yna lawer o dywod yn cael ei chwythu gan y gwynt ar y llwybr, sy'n golygu bod yna lawer o waith clirio. Mae yna lwybr teithio llesol newydd gerllaw.

Cyflwynodd Sian y swyddogion ac aelodau Fforwm Mynediad Lleol

Kevin Slattery (KS), aelod Fforwm Mynediad Lleol o ardal Llandudno

Owen Conry (OC), Rheolwr Perygl Llifogydd, CBSC

Simon Billington (SB), Rheolwr Mannau Agored, CBSC

Gruff Owen (GO), Swyddog Llwybr Arfordir Cymru (Gogledd), Cyfoeth Naturiol Cymru

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sustrans a Swyddog Teithio Llesol CCBC

Cyflwyniad gan Kevin

Rhoddodd KS ei farn a disgrifiodd ei hun fel person lleyg sy'n defnyddio'r ardal.

Cyflwyniad – Llwybrau Amgen Dywedodd KS fod yna 3 ffordd posibl i gyrraedd yr ardal ar hyn o bryd.

Llwybr Amgen 1 – Llwybr presennol wedi'i orchuddio gyda thywod, ardal fendigedig. Amhosibl mynd ar hyd y llwybr

Llwybr Amgen 2 – llwybr 3 cilomedr o'r orsaf drên ar hyd ffordd dros y rheilffordd (grisau yn serth a chul iawn) amhosibl i gadeiriau olwyn a sgwteri symudedd (symud ymlaen i lwybr amgen 3).

Llwybr Amgen 3 – olrhain camau dros y llinell rheilffordd yn Neganwy, llwybr cul, a’r palmant yn cael ei rwystro gan bolyn lamp. A546 (uno gyda llwybr amgen 2) a darn 400m newydd o lwybr yn wych, wyneb bendigedig, gwych i holl ddefnyddwyr. Gwrych yn rhy uchel i weld yr olygfa, ond wedi’i dorri mewn rhai llefydd. Yna nifer o groesfannau ffyrdd. Llauer o arian yn cael ei wario ar y llwybr hwn.

Pobl yn mynd â’r car yn lle defnyddio llwybr 1 gan nad yw’r llwybrau eraill yn ymarferol i holl ddefnyddwyr.

Cafodd llwybr amgen 1 ei osod yn 2008 ar droed y twyni tywod nid o flaen gwaelod y twyni.

Mae’r tywod a chwythwyd yn ceisio adennill y twyni tywod. Llwybr bob amser yn mynd i fethu gan ei fod wedi’i dorri drwy dwyni tywod nid o danynt. Rhoddodd KS enghraifft o fod yn pen morfa ar ddiwrnod gwyntog pan nad oedd yna dywod yn gorchuddio creigiau ar y blaendraeth ac nid yw’r ardal byth yn cae ei gorchuddio gan ddŵr hyd yn oed pan mae’r penllanw, a dyma pam ei fod wedi awgrymu llwybr yn yr ardal hon i osgoi materion tywod yn cael ei chwythu a phenllanw.

Roedd KS wedi siarad gydag un o’r swyddogion amddiffyn rhag llifogydd ac roedd yn credu nad oedd CBSC erioed wedi ystyried creu llwybr uwchben penllanw. Gofynnodd KS faint o arian oedd yn cael ei wario ar y llwybr Teithio Llesol ar yr A456.

Ymateb Swyddogion

SB yn cadarnhau fod y llwybr wedi’i adeiladu yn y lle anghywir. Ni fydd CBSC yn parhau i dalu am glirio tywod yn yr ardal hon. Roedd yn faich cynnal a chadw oedd yn costio dros £80,000 y flwyddyn sy’n golygu £80,000 yn llai o waith yn rhywle arall ac mae yna hefyd ystyriaethau amgylcheddol o ran peiriannau trwm yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith hwn.

Amlygodd OC waith amddiffyn rhag llifogydd fydd yn digwydd yn Llandudno, Llanfairfechan a Cinmel. Bydd yna gyfleoedd i gynnwys buddion ehangach fel rhan o bob cynllun. Gall buddion ehangach gynnwys gwella mynediad, toiledau a goleuadau er enghraifft. Mae’r prosiectau hyn o ganlyniad i gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i newidiadau arfaethedig yn lefelau’r môr, a allai gael effaith trychinebus ar y cymunedau hyn. Cynhelir ymgynghoriad ar gyfer y prosiect hwn ar-lein ar wefan Conwy. Yn y 12 mis nesaf, bydd y prosiect ar y pwynt o edrych ar fanylion buddion ehangach, a dyna lle mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhan o hynny.

Dywedodd GO fod y llwybr wedi’i greu yn 2008. Cafodd llwybr Arfordir Cymru ei alinio i’r llwybr hwn pan gafodd ei greu a’i agor yn 2012. Mae llauer o gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru wedi’i ddarparu i gynorthwyo i glirio tywod, ond mae yn a materion eraill ochr Conwy o’r llwybr sydd angen sylw. Er ei fod yn llwybr cerdded yn bennaf, mae’n rhaid i ni ystyried mynediad lleiaf rhwystrol hefyd. Dywedodd GO y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig arian ar gyfer adlinio, roedd y gronfa hon yn gystadleuol gydag awdurdodau lleol eraill. Byddai’n dda gweld beth fyddai’n gallu dod allan o’r prosiectau gafodd eu crybwyll.

Cwestiynau

A ellir defnyddio’r llwybr drwy’r cwrs golff?

Gellir, mae’n llwybr y gellir ei ddefnyddio gan gerddwyr, nid mynediad lleiaf rhwystrol. Mae’n hawl dramwy gyhoeddus. Nid yw’r llwybr drwy’r twyni yn hawl tramwy cyfreithiol ac nid oes yna ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnal y llwybr hwn ar draul y cyhoedd.

Gofynnodd KS dri chwestiwn yn ei gyflwyniad:

A oedd yna unrhyw ymgynghoriad ar y llwybr teithio llesol? Oes, cynhaliwyd ymgynghoriad i greu Mapiau Rhwydwaith Integredig.

A oedd y llwybr yn yr ardal clogfaen wedi'i ystyried? Oedd, fodd bynnag, nid oedd yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer llwybr o ganlyniad i donau uchel.

Beth oedd cost y llwybr teithio llesol? £266,791 ac eithrio TAW.

A yw'n rhesymol i ni ddisgwyl i bob llwybr troed fod yn hygyrch i holl ddefnyddwyr drwy'r amser?

Beth sy'n ymarferol i fod yn agored i holl ddefnyddwyr?

Ailadroddodd KS ei brif fater ynglŷn â'i llwybr arfaethedig uwchlaw'r ardal penllanw sydd heb ei orchuddio gan dywod neu ddŵr yn methu cael ei ystyried.

Dyweddodd OC y gellir edrych arno eto ond mae angen datrysiaid sy'n dderbyniol i bawb.

Diolchodd y Cadeirydd i Kevin am ei gyfraniad i'r cyfarfod a gofynnodd os fyddai gwaith wedi gallu cael ei wneud yn rhatach? Awgrymodd OC eu bod yn anfon cais Rhyddid Gwybodaeth, roedd CBSC yn dryloyw o ran eu gwariant.

Materion eraill:

Dyweddodd Martyn Holland fod ymgynghoriad presennol yn Sir Ddinbych ar gael yn Sirddinbych.gov.uk

Dyddiad cyfarfodydd sydd i ddod:

Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2019, Parc Gwledig Loggerheads

Hwn fydd cyfarfod olaf tymor tair blynedd presennol y Fforwm.